

## **Glan-Yr-Afon Primary (Browning Close)**

### **Disgrifiad o Gynnig y Cynllun**

Mae aelodau'r cyhoedd wedi mynegi pryderon wrthym ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon ar Browning Close. Mae nifer o faterion wedi eu codi yn ymwneud â gyrwyr yn rhwystro tramwyfeydd a hefyd gerbydau yn parcio ar hyd y droedffordd gan greu rhwystr i gerddwyr yn y lleoliad hwn.

Mae arolygon wedi eu cwblhau sy'n dangos bod cerbydau yn parcio ar y droedffordd ar ddwy ochr y ffordd hon sy'n rhwystro'r droedffordd ac yn gorfodi cerddwyr i gerdded allan i'r lôn gerbydau. Cynigir felly gyflwyno bolardiau ar hyd un ochr o'r ffordd, yr holl ffordd ar ei hyd, er mwyn rhwystro cerbydau rhag creu rhwystr ar y droedffordd. Gan werthfawrogi y bydd hyn yn cyfyngu ar y parcio sydd ar gael yn yr ardal mae'n werth nodi bod gan bob eiddo ar Browning Close fan parcio oddi ar y ffordd ar ffurf dreif.

Rydym yn deall ei bod yn anghyfleus i breswylwyr pan na allant barcio o flaen eu tai eu hunain. Mae nifer o leoliadau yng Nghaerdydd lle na all preswylwyr barcio y tu allan i'w cartrefi, neu hyd yn oed yn agos i'w cartrefi, am nad yw'r gofod ar y ffordd yn ddigonol i ateb y galw sydd am lefydd parcio. Mewn amgylchiadau fel hyn, mater i'r gyrwyr dan sylw yw dod o hyd i fan i allu parcio yn ddiogel, ond rydym yn gwerthfawrogi y gall hyn yn aml fod yn anghyfleus.

Bydd gweithredu'r project hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig ar gyfer cerddwyr, ac mae'n ffurfio rhan o'r fenter Llwybrau Diogelach i'r Ysgol.

### **Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig**

**Bolard.** Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

**Lleoedd Croesi i Gerbydau** Mae lle croesi i gerbydau yn eich galluogi i gael mynediad at eich eiddo mewn modd cyfreithiol, diogel a hawdd pan ydych yn defnyddio car neu gerbyd domestig arall. Mae hyn yn golygu bod cyrbau'n cael eu gostwng ("cwrbyn isel") i lefel y lôn gerbydau a bod y droedffordd, neu lain ymyl, yn cael ei chryfhau i ddal pwysau'r cerbydau sy'n ei chroesi. Mae'n drosedd i yrru ar droedffordd oni bai bod lle croesi i gerbydau wedi'i awdurdodi a'i osod. Yn ogystal â rhesymau diogelwch, gallech ddifrodi'r droedffordd neu unrhyw bibellau neu geblau sydd wedi'u claddu o dan y droedffordd. Mae'r lle croesi yn eich galluogi i basio'n ddiogel o'r lôn gerbydau, gan beidio â rhwystro'r briffordd.

Fel rhan o'n cynlluniau gwella, mae'n bosibl darparu lle croesi newydd i gerbydau, yn amodol ar y telerau ac amodau angenrheidiol. Ond, rhaid i'r rheiny sy'n ceisio lle croesi i gerbydau gael Cytundeb Priffordd gennym o flaen llaw. Yn dibynnu ar sut y mae'r ffordd wedi'i Dosbarthu, efallai y bydd yn angenrheidiol cael Caniatâd Cynllunio hefyd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk).

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**


Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 20873289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **24/03/2017**.

A Proud Capital  
Prifddinas Falch



**Allwedd:**

- Bolard Arfaethedig ●
- Arwydd Gât Ysgol Arfaethedig ●
- Bolard Presennol ●
- Dreif / Pwynt Mynediad Preifat



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 20873289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **24/03/2017**.

**KEY:**

- Proposed Bollard ●
- Proposed School Gateway Sign ●
- Existing Bollard ●
- Driveway / Private Access Point